# Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam
# Rhestr termau
22dd Mawrth 2022

**Termau allweddol**:

| Term | Acronym | Diffiniad dros dro |
|---|---|---|
| **Cydweithrediadau proffesiynol** | / | Dyma’r mecanweithiau a ddefnyddir gan bractisau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, practisau Deintyddol, Fferyllfeydd Cymunedol, practisau Optometreg, Nyrsys Cymunedol, Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac eraill i ddod ynghyd o fewn eu grwpiau proffesiwn penodol ar draws y clwstwr i ystyried sut i ymateb i Asesiadau Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth, ystyried ansawdd y gwasanaeth a gynigir ganddynt ac edrych ar sut y maent yn ymateb i’r strategaeth genedlaethol ar gyfer eu priod broffesiynau, a dylunio datrysiadau lleol yn seiliedig ar eu gwybodaeth fanwl a'u harbenigedd. |
| **Clystyrau** | / | Dyma’r mecanweithiau a ddefnyddir gan gynrychiolwyr y Cydweithrediadau Proffesiynol unigol i ddod ynghyd i asesu anghenion iechyd a llesiant ehangach y boblogaeth (fel arfer rhwng 25,000 a 100,000 o bobl) ac ymateb i Asesiadau Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth i greu cynllun clwstwr 3 blynedd â blaenoriaeth. Mae’r cynllun hwn hefyd yn nodi sut y dylid buddsoddi unrhyw gyllid a ddyrennir ar gyfer penderfyniad ar lefel clwstwr (megis yr £20m gan Lywodraeth Cymru).<br>Mae'r aelodaeth amlbroffesiynol ac amlsector hwn yn galluogi clystyrau i fynd i'r afael â llawer o'r materion mwy cymhleth a heriol sy'n gofyn am ymateb cydweithredol. Mae deialog rhyngbroffesiynol/rhyngsector hefyd yn galluogi darparu gwasanaeth mwy effeithlon. Drwy atgyfnerthu trefniadau rhwng Clystyrau a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae cyfle pellach i 'dynnu adnoddau i lawr' i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau ar lefel clwstwr sy'n ategu blaenoriaethau strategol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. |
| **Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr** | PCPG | Dyma’r mecanweithiau a ddefnyddir gan gynrychiolwyr clystyrau i ddod ynghyd ar lefel ôl troed poblogaeth y sir i gydweithio â chynrychiolwyr byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, arbenigwyr iechyd y cyhoedd, cynllunwyr a chynrychiolwyr y gwasanaethau hynny nad yw Cydweithrediadau Proffesiynol yn briodol ar eu cyfer e.e. gwasanaethau y dylid eu cynllunio’n unig ar lefel sirol, bwrdd iechyd/rhanbarthol neu hyd yn oed ar lefel genedlaethol. Bydd Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr yn darparu’r ôl troed lleol i gyflawni blaenoriaethau’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dactegol. Mae Grwpiau Cynllunio Trawsglwstwr yn cytuno ar asesiad o anghenion poblogaeth y sir a chynllun o ran pa wasanaethau sydd eu hangen, gan wneud defnydd doeth o'r holl gyllid, y gweithlu ac adnoddau eraill. Mae’n rhaid i asesiad o anghenion a chynlluniau’r Grŵp |

| Term | Acronym | Diffiniad dros dro |
|---|---|---|
| | | Cynllunio Trawsglwstwr lywio a chael eu llywio gan asesiadau o angen ar lefel ranbarthol (sy'n un o swyddogaethau statudol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol). Dylid eu hystyried fel cyfres gyfunol o asesiadau o anghenion a chynlluniau cydgysylltiedig. |

**Termau Eraill:**

| Term | Acronym | Diffiniad dros dro |
|---|---|---|
| **Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam** | ACD | Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam yw'r elfen Gofal Sylfaenol o Ofal sy'n Seiliedig ar Le, a ddarperir drwy Gydweithrediadau Proffesiynol a Chlystyrau. Mae'r grwpiau cydweithredol yn dod ag Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol, Deintyddol ac Optometrig, Fferyllwyr, Nyrsys, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a gweithwyr proffesiynol Gofal Cymdeithasol ynghyd, o fewn eu grwpiau proffesiynol, i asesu anghenion y boblogaeth a blaenoriaethau gwella gwasanaethau. Datblygir atebion o fewn y Cydweithrediadau a thrwy waith Clwstwr amlddisgyblaethol. |
| **Gwaith clwstwr** | / | Mae clwstwr yn dod â'r holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ynghyd ar draws ardal ddaearyddol, sydd fel arfer yn gwasanaethu poblogaeth o rhwng 25,000 a 100,000. Mae gweithio fel clwstwr yn sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynu'n well i hybu llesiant unigolion a chymunedau. |
| **Dulliau Cyflawni Clystyrau** | CDV | Dyma'r mecanweithiau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny y mae'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr yn penderfynu a ddarperir orau ar gyfer anghenion penodol neu ar draws poblogaeth gyfan y clwstwr. Gall cyfryngau cyflawni clystyrau fod ar ffurf cwmnïau buddiannau cymunedol, ffederasiynau neu fentrau cymdeithasol a gallant ddarparu endidau sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd mewn meysydd fel recriwtio fydd yn galluogi gweithio ar y cyd. Gallai'r cyfryngau cyflawni hyn hefyd ddarparu dull llawer mwy hyblyg o gyfuno adnoddau rhwng partneriaid i gefnogi darparu gwasanaeth integredig yn y gymuned. |
| **Cwmni Buddiannau Cymunedol** | CiC | Mae cwmni buddiannau cymunedol yn fath arbennig o gwmni cyfyngedig a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2005 o dan Ddeddf Cwmnïau 2004, a luniwyd ar gyfer mentrau cymdeithasol sydd am ddefnyddio eu helw a'u hasedau er lles y cyhoedd yn hytrach na chyfranddalwyr preifat.<br>Yng nghyd-destun y Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam gallai Cwmni Buddiannau Cymunedol fod yn fecanwaith neu'n gyfrwng i ddarparu gwasanaethau ar ran y Clwstwr neu'r Grŵp Cynllunio Traws-glwstwr. |
| **Porth Cymorth Cynllunio Clystyrau** | CPSP | Porth digidol ar GSUn ar gyfer rhannu adnoddau i gynorthwyo â chynhyrchu Cynlluniau Blynyddol a chynlluniau tair blynedd Clystyrau / Grwpiau Cynllunio Traws-glwstwr. |
| **Model Gofal Sylfaenol i Gymru** | PCMW | Y model trawsnewidiol ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned, sef ymagwedd sy'n seiliedig ar le at ofal iechyd a llesiant lleol cynaliadwy a hygyrch. |

| Term | Acronym | Diffiniad dros dro |
|---|---|---|
| **Rheoli Iechyd y Boblogaeth** | / | “Lens” amgen i asesiadau anghenion poblogaeth traddodiadol yw rheoli iechyd y boblogaeth. Mae'n golygu edrych ar yr un boblogaeth gan ddefnyddio data lefel cleifion wedi'i drefnu'n segmentau neu’n glystyrau yn seiliedig ar anghenion. Mae'n archwilio'r defnydd o adnoddau yn seiliedig ar risg gyffredin i ddisgrifio anghenion, gan hwyluso'r gwaith o optimeiddio’r ddarpariaeth gofal a’r defnydd o adnoddau yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. |
| **Asesiad (Rhanbarthol) o Anghenion y Boblogaeth** | RPNA/PNA | Dull systematig o adolygu anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth, yn arwain at flaenoriaethau comisiynu cytunedig fydd yn gwella canlyniadau iechyd a llesiant ac yn lleihau anghydraddoldebau. |
| **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** | BPRh | Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dod â byrddau iechyd, awdurdodau lleol a’r trydydd sector ynghyd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal. |
| **Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol** | SPPC | Rhaglen ar gyfer Cymru gyfan a arweinir gan Fyrddau Iechyd yw’r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol sy’n gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac sy’n ymateb i gynllun ‘Cymru Iachach’. |